

# Pecyn Cymorth Ymarferydd Pori Drwy Stori Ble mae'r Ddafad?

## Gweithgareddau i gefnogi adnoddau Ble mae'r Ddafad?

Pori Drwy Stori yw'r rhaglen genedlaethol ar gyfer plant oedran derbyn yng Nghymru, a gyflwynir gan Booktrust Cymru. Ariennir y rhaglen gan Lywodraeth Cymru a'i nod yw helpu i gefnogi llythrennedd a rhifedd yn y dosbarth ac yn y cartref. Fel rhan o'r rhaglen, bydd pob plentyn yn eich dosbarth Derbyn yn derbyn set o gardiau Ble mae'r Ddafad? i'w defnyddio gartref.

Mae Booktrust Cymru yn cefnogi ymarferwyr wrth iddynt weithio gyda phlant a theuluoedd; mae'r pecyn hwn yn llawn dop o syniadau hwyliog am wersi yn y dosbarth gan ddefnyddio'r adnodd rhifedd Ble mae'r Ddafad?, a rhai gweithgareddau y gallwch annog teuluoedd i'w mwynhau gartref.

Ar ddiwedd pob taflen gweithgaredd ceir adran yn dangos sut mae'r gweithgareddau'n cysylltu â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh). Rydym wedi cynllunio'r gweithgareddau i helpu athrawon i ddefnyddio Ble mae'r Ddafad? er mwyn cynnwys rhifedd yn eu gwersi yn unol â'r Fframwaith. Maen nhw'n gyfleoedd dysgu hwyliog hefyd!

Cynlluniwyd Pori Drwy Stori i helpu rhieni/gofalwyr i gymryd rhan yn addysg eu plant. Mae rhai o'r gweithgareddau yn y pecyn cymorth hwn wedi'u cynllunio i'ch helpu chi i gyflwyno'r cardiau Ble mae'r Ddafad? i'r plant a'u gwneud yn frwdfrydig am fynd â nhw adref a chael syniadau am sut i chwarae gyda nhw. Mae eraill yn canolbwyntio mwy ar bethau y gellir eu gwneud yn y cartref dros y gwyliau ac mae'n bosibl addasu'r rhan fwyaf i dasgau gwaith cartref hwyliog.

Bydd y plant yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cardiau gartref os byddwch chi'n rhannu'r gweithgareddau a wnaed yn yr ysgol gyda rhieni/gofalwyr. Gallech wneud hyn drwy ddangos lluniau a gwybodaeth mewn mannau ble gall y rhieni eu gweld, er enghraifft drwy roi lluniau ar Twitter neu wefan yr ysgol neu ddefnyddio'r templed llythyr sydd yn y pecyn hwn i roi syniadau ychwanegol am weithgareddau i rieni/gofalwyr.

> 'Pan edrychwn ni ar brofion rhyngwladol, mae peth tystiolaeth sy'n dangos mai'r gwledydd lle mae rhieni'n cymryd rhan yn addysg y plant yw'r rhai mwyaf llwyddiannus. Os ydym ni am wella ein safle rhyngwladol, mae'n rhaid i hynny ddigwydd yng Nghymru.'
>
> **Huw Lewis. Y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Ebrill 2014.**

Mae'r pecyn cymorth rhyngweithiol wedi'i rannu'n dair adran:

1) **Paratoi:** awgrymiadau ar sut i ddechrau arni gydag adnoddau Ble mae'r Ddafad?
2) **Gweithgareddau Ble mae'r Ddafad?:** syniadau am weithgareddau a chynlluniau gwersi.
3) **Dathlu:** awgrymiadau ar sut i adolygu'r tymor a dathlu eich llwyddiannau!



# Cynnwys

**Bydd clicio ar benawdau'r tudalennau isod yn mynd â chi i bob gweithgaredd.**

Nid yw'r gweithgareddau hyn yn rhestr derfynol ac mae'n siŵr y bydd gennych chi syniadau eraill a fydd yn gweithio'n dda yn eich ysgol. Byddai datblygu nifer fach o syniadau'n dda yn fwy buddiol na rhoi cynnig ar bob un o'r gweithgareddau yn y pecyn cymorth hwn. Y peth pwysicaf yw eich bod chi'n cael hwyl gydag adnodd Ble mae'r Ddafad?!


**Paratoi**


Ffyrdd o baratoi i ddefnyddio'r adnodd ........ 3

**Gweithgareddau Ble mae'r Ddafad?:**

Mesur defaid ........ 4
Meintiau defaid ........ 5
Prynu defaid ........ 6
Sachau rhifau ar thema'r fferm ........ 7
Bisgedi Ble mae'r Ddafad? ........ 8
Patrymau awyr agored ........ 9
Mewn parau ........ 10
Llenwi'r Fferm ........ 11
Hel Defaid ........ 12
Poeth neu oer ........ 13
Templed llythyr ........ 14

**Dathlu:**

Ffyrdd o ddathlu eich llwyddiannau Ble mae'r Ddafad? ........ 15

# Paratoi

Rydych chi wedi derbyn eich adnoddau Pori Drwy Stori ac mewn sefyllfa i roi'r cardiau Ble mae'r Ddafad? i'r plant a'r teuluoedd rydych chi'n gweithio gyda nhw. Y peth cyntaf i'w wneud yw ymgyfarwyddo â'r cynnwys fel y gallwch helpu eich teuluoedd i gael y gorau o'r pecyn hwn. Paratowch gyda'r rhestr wirio hon a fydd yn eich rhoi ar ben ffordd:

**Hysbysu rhieni:**

- Gwnewch yn siŵr bod pob rhiant a gofalwr yn deall beth yw'r adnoddau a sut y gallan nhw helpu eu plentyn i gael y gorau ohonyn nhw.
- Cyfeiriwch nhw at ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth: **www.poridrwystori.org.uk**
- Defnyddiwch y **templed llythyr** ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn i anfon llythyrau at rieni/gofalwyr – gallech ei ddefnyddio i egluro adnoddau Pori Drwy Stori a rhoi gwybod pa weithgareddau rydych chi wedi'u cynllunio ar gyfer y tymor.
- Os ydych chi'n ebostio rhieni, anfonwch ddiweddariadau rheolaidd at deuluoedd am y gwersi Pori Drwy Stori y byddwch chi'n eu cynnal.

**Creu cyffro:**

- Siaradwch am yr adnoddau ar wefan/tudalennau cyfryngau cymdeithasol yr ysgol.
- Os ydych chi'n e-bostio/argraffu cylchlythyrau ar gyfer teuluoedd, cofiwch gynnwys diweddariadau am yr adnoddau yn y rhain hefyd!
- Rhowch wybodaeth ar hysbysfyrddau yn yr ysgol.
- Siaradwch â rhieni/gofalwyr pan fyddwch chi'n eu gweld, yn enwedig mewn cyfarfodydd rhieni neu gyfarfodydd pontio.

**Dogfennau'r ysgol gyfan:**

Sut mae sicrhau bod rhaglen Pori Drwy Stori yn cael ei chynnwys yn Nogfennau'r Ysgol Gyfan? Gallai'r rhaglen gysylltu â'r canlynol:

- Polisi dysgu ac addysgu
- Amcanion yr ysgol
- Polisi cyfranogiad rhieni
- Polisi gwaith cartref
- Adroddiad hunanwerthuso (1.2.2 1.2.3 2.1.2 2.1.3 3.1.3 3.3.1)
- Llyfryn yr ysgol

# Mesur defaid

Gallwch gael hwyl yn mesur y defaid ar y cardiau Ble mae'r Ddafad? gan ddefnyddio unedau safonol ac ansafonol fel ciwbiau, cownteri, cortyn neu bren mesur. Gall plant weithio ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau yna dod at ei gilydd i drafod eu canfyddiadau fel dosbarth.

## Cyfarwyddiadau

Mesurwch y defaid gan ddefnyddio amrywiaeth o offer gwahanol yn unol â gallu'r plant yn y dosbarth. Dyma rai syniadau:

- Ciwbiau/cownteri: rhowch y ciwbiau ar luniau a'u rhoi nesaf at y cardiau.
- Cortyn: torrwch y cortyn yn ôl maint y defaid ar y cardiau.
- Pren mesur: ysgrifennwch y mesuriadau ar nodiadau post-it a'u rhoi nesaf at y cardiau.

Ar ôl cael yr holl fesuriadau, trafodwch y gwahaniaethau a gwnewch gymariaethau fel dosbarth. Gallech wneud graff o'r canlyniadau i'w arddangos yn y dosbarth.


## Adnoddau angenrheidiol:

- Cardiau
- Ciwbiau
- Cownteri
- Prennau mesur
- Cortyn
- Siswrn

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Defnyddio cymariaethau uniongyrchol o ran: hyd, uchder a phellter, e.e. hirach na / byrrach na.
- Darllen ac ysgrifennu rhifau i 10 o leiaf.
- Defnyddio iaith bob dydd a iaith fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau.
- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a dosbarth.
- Nodi camau i gwblhau'r dasg neu gael ateb.



# Meintiau defaid

Rhowch y cardiau mewn trefn yn ôl maint y defaid, o'r lleiaf i'r mwyaf. Gofynnwch i'r disgyblion ddod o hyd i wrthrychau a'u cymharu â maint y defaid.

## Cyfarwyddiadau

Ewch ati i chwarae gêm gan roi'r cardiau mewn trefn yn ôl maint y defaid. Mae'r cardiau'n cynnwys defaid:

1) Bach iawn (melyn)
2) Bach (gwyrdd)
3) Canolig (glas)
4) Mawr (porffor)
5) Mawr iawn (coch)

Gofynnwch i'r plant gasglu amrywiaeth o wrthrychau a'u cymharu â maint y defaid ar y cardiau. Yna, dylen nhw roi'r gwrthrychau mewn trefn, gan eu rhoi ar ben neu wrth ochr y cerdyn sydd â'r ddafad o'r un maint.

Anogwch y plant i ddefnyddio geirfa fel: llai, yr un faint, mwy na.

## Adnoddau angenrheidiol:

- Cardiau
- Unrhyw wrthrychau o wahanol feintiau y gall eich plentyn ddod o hyd iddyn nhw (yn yr ystafell ddosbarth a thu allan)

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Defnyddio iaith bob dydd a iaith fathemategol i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau.
- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae a dosbarth.
- Nodi camau i gwblhau'r dasg neu gael ateb.
- Cymharu hyd, uchder a phellter, e.e. hirach na / byrrach na.

# Prynu defaid

Mae chwarae rôl yn ffordd wych o ddysgu, felly beth am gael pawb yn y dosbarth i esgus bod yn ffermwr? Crëwch fyd ffermio a gofynnwch i'r plant esgus prynu defaid i'w fferm yn y farchnad leol.

## Cyfarwyddiadau

Rhowch ddarnau arian gwahanol i'r plant (1c, 2c, 5c a 10c). Rhaid i'r plant benderfynu pa ddafad i'w phrynu a chyflwyno'r arian iawn i dalu amdani.

Gosodwch y cardiau Ble mae'r Ddafad? fel rhestr brisiau, er enghraifft:

Triongl – 1c
Sgwâr – 2c
Petryal – 5c
Cylch – 10c
Diemwnt – 20c

Yna, bydd rhaid i'r plant ddod o hyd i'r siâp ar y cerdyn sy'n cyfateb i'r ddafad y maen nhw am ei phrynu er mwyn gweld beth yw'r pris.

Gellir cael 20c drwy ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian, felly bydd hyn yn herio disgyblion o allu uwch.

## Adnoddau angenrheidiol:

- Cardiau Ble mae'r Ddafad?
- Darnau arian
- Gwisgo fel ffermwyr er mwyn dynwared prynu a gwerthu yn y farchnad!

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Rheoli arian.
- Defnyddio darnau 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau.
- Defnyddio gwahanol gyfuniadau o ddarnau arian i dalu am eitemau hyd at 20c.



# Sachau rhifau ar thema'r fferm

Gwnewch sach rhifau gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau yn ymwneud â'r fferm fel ffordd o ddenu a chynnwys rhieni/gofalwyr mewn gweithgareddau rhifedd Pori Drwy Stori.

## Cyfarwyddiadau

Llenwch sach ar thema rhifedd, gan gynnwys eitemau fel:

- Dafad a/neu gi tegan.
- Llyfrau stori ar thema'r fferm.
- Rhigymau sy'n gysylltiedig â'r fferm ac anifeiliaid fferm e.e. *Mynd drot drot, Gee Ceffyl Bach, Mae gan Ewyrth Ifan fferm, Dacw mam yn dwad, Mae gen i ddafad gorniog, Hen iâr fach bert, Dau gi bach.*
- Cardiau Ble mae'r Ddafad? gyda chyfarwyddiadau.
- Crëwch ddyddiadur Ble mae'r Ddafad? i rieni/gofalwyr a phlant ysgrifennu ynddp am eu gweithgareddau neu gynnwys lluniau. Gallai hwn fod yn llyfr syml gyda thabl i deuluoedd gofnodi sut maen nhw wedi defnyddio'r sach.

Cyflwynwch y sach rhifau Ble mae'r Ddafad? i'r plant yn y dosbarth er mwyn iddyn nhw deimlo'n gyffrous am fynd â hi adref.

Defnyddiwch y **templed llythyr** ar ddiwedd y pecyn cymorth hwn i ysgrifennu at y rhieni/gofalwyr i egluro beth yw'r sach a sut y byddech chi'n hoffi iddyn nhw ei defnyddio.

Rhowch y sach i'r plentyn fynd adref â hi unwaith yr wythnos (neu'n amlach os dymunwch).

Pan mae'r plentyn yn dychwelyd y sach i'r ysgol dylid rhoi cyfle iddo siarad â'r dosbarth am y gemau y bu'n chwarae gartref (bydd dyddiadur Ble mae'r Ddafad? yn ei helpu i wneud hyn). Gellid cyflwyno tystysgrif i'r teulu yn eu llongyfarch am ddefnyddio eu sgiliau rhifedd gyda'i gilydd yn y cartref.

## Adnoddau angenrheidiol:

- Sach neu fag
- Llyfrau, teganau i'r bag
- Dyddiadur/llyfr nodiadau

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i chwarae.
- Defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau.
- Cyflwyno eu gwaith ar lafar, mewn lluniau neu yn ysgrifenedig.
- Cymharu a rhoi rhifau mewn trefn hyd at 10 o leiaf.
- Cyfuno dau grŵp o wrthrychau i gyfrif 'faint i gyd?'
- Defnyddio cymhariaeth uniongyrchol mewn perthynas â maint.
- Didoli a dosbarthu gwrthrychau.

# Bisgedi Ble mae'r Ddafad?

Beth am fynd ati i bobi er mwyn dysgu! Dilynwch rysáit bisgedi syml i wneud bisgedi gyda'ch dosbarth. Gofynnwch i bob plentyn ddewis cerdyn Ble mae'r Ddafad? ac yna gofynnwch iddyn nhw addurno'r patrwm rhif o'r cerdyn hwnnw ar eu bisgedi.

## Cyfarwyddiadau

Dilynwch rysáit bisgedi – mae yna lawer i'w cael ar y we a dim ond un syml sydd ei angen.

Gofynnwch i'r plant ddewis cerdyn o becyn Ble mae'r Ddafad?

Gosodwch y cardiau fel bod y plant yn gallu copïo eu rhif wrth addurno'r bisgedi. Defnyddiwch felysion bach, ffrwythau sych neu eisin i addurno'r bisgedi.

Gofynnwch i'r plant roi eu bisgedi yn y drefn gywir h.y. o'r ddafad leiaf i'r ddafad fwyaf.

Tynnwch luniau i'w harddangos yn y dosbarth, i'w rhoi ar wefan yr ysgol ac i'w rhannu â rhieni/gofalwyr (a Pori Drwy Stori!) ar Twitter.

Bwytewch y bisgedi!

Sylwer: Gyda phlant oedran Derbyn mae'n llawer haws newid y mesuriadau coginio i faint o lwyau bwrdd fydd eu hangen ar gyfer pob cynhwysyn. Drwy wneud hyn maen nhw'n gallu cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar y broses goginio.

## Adnoddau angenrheidiol:

- Cynhwysion coginio i wneud bisgedi (blawd, wyau, siwgr, margarin, melysion bach ac ati)
- Cyfarpar coginio i wneud bisgedi (powlenni, llwyau bwrdd, llwyau pren, torrwr bisgedi, hambwrdd pobi)
- Cardiau Ble mae'r Ddafad?
- Camera

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth.
- Nodi camau i gwblhau'r dasg.
- Defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau.
- Cyflwyno eu gwaith ar lafar ac mewn lluniau.
- Cyfri hyd at 10 gwrthrych yn hyderus.

# Patrymau awyr agored

Anogwch y plant i ddefnyddio gwrthrychau o'r tu allan (dail, brigau, concyrs ac ati) i greu patrymau rhif yn seiliedig ar gardiau Ble mae'r Ddafad?

## Cyfarwyddiadau

Trafodwch y gwahanol batrymau numicon ar y cardiau Ble mae'r Ddafad? gyda'r plant.

Rhowch gyfleoedd i'r plant wneud y patrymau hyn yn y dosbarth gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. ciwbiau, cownteri, creonau, pegiau ac ati.

Ewch â'r plant i'r iard/ardd a rhoi cerdyn i bob plentyn. Gofynnwch iddyn nhw edrych ar y patrwm rhifau ar eu cerdyn a gweld beth allan nhw ddod o hyd iddo i greu eu patrwm arbennig. Anogwch nhw i fod yn greadigol gyda'r gwrthrychau y maen nhw'n eu defnyddio i wneud eu patrwm numicon.

Fel tasg ymestyn gofynnwch i'r plant eraill yn y grŵp a ydyn nhw'n gallu dod o hyd i'r cerdyn sy'n cyfateb i'r patrymau mae'r plant eraill wedi'u gwneud. Gallech roi cerdyn gwahanol i bob plentyn a gofyn iddyn nhw ddod o hyd i'r patrwm sy'n cyfateb i'w cerdyn. Dechreuwch drafodaeth drwy ofyn a oedd hi'n hawdd cyfateb y patrymau? Os oedd, pam?

Gallech ofyn i'r plant wneud patrymau rhif o wrthrychau yn y cartref a gofyn i rieni/gofalwyr gofnodi hyn mewn cofnodion gwaith cartref.


## Adnoddau angenrheidiol:

- Cardiau Ble mae'r Ddafad?
- Deunyddiau awyr agored fel dail, brigau, mes ac ati
- Ciwbiau, cownteri a chreonau os ydych am wneud hyn o dan do

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth.
- Nodi camau i gwblhau'r dasg.
- Defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau.
- Cyflwyno eu gwaith ar lafar ac mewn lluniau.
- Cyfri hyd at 10 gwrthrych yn hyderus.



# Mewn parau!

Diben y gweithgaredd hwn yw adnabod lliwiau, siapiau a meintiau'r defaid ar y cardiau. Mae gofyn i'r plant eu rhoi mewn parau sy'n perthyn i'w gilydd yn annog trafodaeth am wneud penderfyniadau. Mae hefyd yn golygu bod plant yn cael budd o godi o'u seddi a symud o gwmpas y dosbarth!

## Cyfarwyddiadau

Mae'r pecyn o gardiau'n cynnwys dwy set o bob un:

- Siâp: triongl, sgwâr, cylch, diemwnt, petryal
- Lliw: melyn, glas, gwyrdd, porffor, coch
- Maint dafad: bach iawn, bach, canolig, mawr a mawr iawn

Rhowch gerdyn Ble mae'r Ddafad? i bob plentyn. Eglurwch fod y cardiau wedi'u cymysgu i gyd a'ch bod chi am iddyn nhw ddod o hyd i'r cerdyn sy'n bartner i'r un sydd ganddyn nhw. Mae'n rhaid iddyn nhw ddod o hyd i'r plentyn arall sydd â cherdyn fel eu cerdyn nhw.

Gadewch i'r plant symud o gwmpas y grŵp yn trafod a rhannu eu cardiau a phenderfynu pwy ddylai fod yn bartner iddyn nhw yn eu barn nhw. Gall oedolion helpu os oes angen.

Ar ôl i'r plant ddod o hyd i'w partner maen nhw'n gweiddi: 'Dyma fy mhartner!' (Neu gallwch ofyn iddyn nhw wneud sŵn doniol – sŵn dafad efallai!)

Yna, anogir y plant i egluro i'r grŵp pam eu bod nhw'n credu eu bod nhw'n bartneriaid da. Efallai eu bod nhw wedi dewis bod yn bartneriaid gan fod ganddyn nhw ddafad o'r un maint, lliw, siâp neu hyd yn oed yr un patrwm rhif os ydych chi'n defnyddio mwy nag un pecyn o gardiau. Gall rhai plant benderfynu mai eu partner yw'r plentyn sydd â'r rhif nesaf at eu cerdyn nhw. Prif ffocws y dasg hon yw gadael i'r plant egluro eu rhesymau.

## Adnoddau angenrheidiol:

- Cerdyn Ble mae'r Ddafad? i bob plentyn
- Gallwch lawrlwytho ac argraffu setiau ychwanegol o gardiau o'r wefan os oes angen

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae ac ystafell ddosbarth.
- Nodi camau i gwblhau'r dasg.
- Defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau a'u dewisiadau.
- Defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol.
- Dehongli atebion o fewn cyd-destun problem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol.
- Didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf.

# Llenwi'r fferm

O na! Mae'r ffermwr angen cymorth gan eich dosbarth! Dim ond defaid sydd ganddo ar ei fferm ac mae angen rhagor o anifeiliaid arno. Ewch ati i ennyn brwdfrydedd y disgyblion drwy ofyn iddyn nhw greu eu set eu hunain o gardiau anifeiliaid i helpu'r ffermwr i lenwi'r fferm. Er mwyn gwneud y cardiau, bydd angen i'r plant weithio i faint penodol felly mae'n ffordd hwyliog o ddefnyddio mesuriadau a rhesymu yn y dosbarth. Gallai fod yn dasg gwaith cartref hefyd er mwyn cynnwys teuluoedd.

## Cyfarwyddiadau

Anfonwch lythyr gan y ffermwr at y dosbarth yn egluro ei fod yn drist iawn oherwydd mai dim ond defaid sydd ganddo ar y fferm. Mae am gael cymorth y plant er mwyn cael setiau eraill o anifeiliaid.

Trafodwch gyda'r plant pa anifeiliaid eraill y gallai'r ffermwr eu cael ar ei fferm.

Dywedwch wrth y plant fod y ffermwr angen eu cymorth i sicrhau bod pob anifail o faint gwahanol. Edrychwch ar gardiau Ble mae'r Ddafad? i atgoffa'r plant o feintiau gwahanol y defaid (bach iawn, bach, canolig, mawr a mawr iawn).

Mewn grwpiau bach, rhaid i'r plant benderfynu pa anifail fferm y maen nhw am ei wneud i'r ffermwr a pha faint fydd yr anifail hwnnw. Yna, rhaid i'r plant greu'r anifail hwnnw mewn maint penodol.

Gallech dorri'r cardiau i wahanol feintiau i helpu'r plant i dynnu lluniau'r anifeiliaid, neu gallech ofyn iddyn nhw fesur y cardiau gwreiddiol a cheisio gwneud eu hanifeiliaid yr un maint. Pan fydd pob aelod wedi gorffen ei lun bydd y grŵp yn gallu trefnu eu cardiau yn nhrefn maint.

Crëwch arddangosfwrdd fferm a rhoi'r lluniau arno i'r dosbarth a'r rhieni eu mwynhau. Gallech ofyn i'r plant wneud cardiau ychwanegol gartref i'w hychwanegu i'r arddangosfa.

### Adnoddau angenrheidiol:

- Straeon a lluniau fferm i ysbrydoli
- Deunyddiau gwneud marciau
- Papur neu gerdyn

### Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae.
- Nodi camau i gwblhau'r dasg.
- Defnyddio gwybodaeth a phrofiad ymarferol ar gyfer gwneud amcangyfrifon.
- Defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau.
- Cyflwyno eu gwaith ar lafar, mewn lluniau ac yn ysgrifenedig.
- Defnyddio strategaethau gwirio i benderfynu a yw atebion yn rhesymol.
- Dehongli atebion o fewn cyd-destun problem ac ystyried a yw atebion yn synhwyrol.
- Defnyddio cymhariaeth uniongyrchol mewn perthynas â maint.
- Didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf.

# Hel defaid

Gêm guddio Pori Drwy Stori! Cuddiwch ddefaid plastig neu gopïau o gardiau Ble mae'r Ddafad? tu allan i'r ysgol neu yn y neuadd. Bydd y plant yn gweithredu fel cŵn defaid ac yn chwilio am y defaid. Bob tro y byddan nhw'n dod o hyd i ddafad, rhaid iddyn nhw egluro ble roedd y ddafad gan ddefnyddio iaith leoliadol.

## Cyfarwyddiadau

Cuddiwch y cardiau ymlaen llaw.

Anfonwch lythyr at y dosbarth yn egluro bod y ffermwr yn drist iawn gan ei fod wedi colli ei ddefaid. Mae am gael cymorth y plant i ddod o hyd iddyn nhw. (Gallech benderfynu cysylltu hyn â'r gân "Oes dafad eto…" (yn lle "Oes gafr eto…") a nodi hyn yn eich llythyr.)

Eglurwch fod y ffermwr wedi anfon geiriau arbennig i'w defnyddio pan fydd y plant yn dod o hyd i'w ddefaid. Iaith leoliadol fydd y geiriau hyn a gallent gynnwys 'wrth ymyl', 'nesaf at', 'ar bwys', 'ger', 'rhwng', 'i'r dde o', ac 'i'r chwith o'.

Gallech ofyn i'r plant wneud masgiau cŵn defaid i ychwanegu at y cyffro!

Ewch â'r plant y tu allan/i'r neuadd fesul grŵp neu fel dosbarth cyfan. Gofynnwch iddyn nhw ddod o hyd i'r cardiau. Pan fyddan nhw wedi gwneud hynny, dylen nhw eu cyflwyno i'r athro / cynorthwy-ydd dosbarth ac egluro ble roedd y cerdyn, gan ddefnyddio iaith leoliadol. Ar ddiwedd y gweithgaredd, gallai'r plant egluro i'w gilydd ble maen nhw wedi dod o hyd i rai o'r cardiau.

Gellid datblygu'r wers hon ymhellach drwy:

- Greu map o'r iard/neuadd yn dangos ble roedd y defaid
- Didoli'r defaid yn ôl eu maint
- Didoli'r defaid yn ôl eu safle cuddio, er enghraifft, defaid oedd ar ben gwrthrychau, wrth ymyl gwrthrychau ac ati
- Rhannu'r grŵp a gofyn i rai plant wisgo masgiau defaid a chuddio, tra bo gweddill y dosbarth yn chwilio amdanyn nhw.

## Adnoddau angenrheidiol:

- Defaid plastig, lluniau o ddefaid neu lungopïau o gardiau A4 Ble mae'r Ddafad?
- Masgiau cŵn defaid
- Cardiau iaith leoliadol
- Llythyr gan y ffermwr yn egluro ei broblem

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

| |
|---|
| • Trosglwyddo sgiliau mathemategol i weithgareddau chwarae. |
| • Nodi camau i gwblhau'r dasg. |
| • Defnyddio iaith fathemategol bob dydd i siarad am eu syniadau. |
| • Cyfri hyd at 10 gwrthrych yn hyderus. |
| • Didoli a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf. |

# Dathlu

Mae yna sawl ffordd o ddathlu a myfyrio ar eich gweithgareddau Pori Drwy Stori. Syniadau i'w hystyried:

## Gwasanaeth dathlu

Trafodwch gyda'r Cydlynydd Gwasanaethau ymlaen llaw i gael amser addas ar gyfer Ble mae'r Ddafad?. Gall eich plant siarad am eu hoff weithgaredd Ble mae'r Ddafad? a chyflwyno lluniau o rai o'r gweithgareddau i'w rhannu gyda gweddill yr ysgol. Gallech wahodd rhieni/gofalwyr i'r gwasanaeth i glywed am yr hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud a chryfhau'r cyswllt â'r cartref.

## Seremonïau cyflwyno tystysgrifau

Gofynnwch i'r plant greu tystysgrifau iddyn nhw'u hunain neu eu cyfaill, yna eu cyflwyno. Mae tystysgrifau'n ffordd hyfryd o ddiolch iddyn nhw am eu gwaith caled a dathlu!

Gallai plant greu tystysgrifau i'w rhieni/gofalwyr a'u teuluoedd hefyd i ddiolch am eu cymorth gyda gweithgareddau Ble mae'r Ddafad? yn y cartref. 'Diolch' ydy'r pwyslais yma, er mwyn cryfhau cyfraniad a chyfranogiad y teulu.

## Dangos a dweud

Neilltuwch amser pwrpasol yn eich cynlluniau i'r plant siarad a rhannu gyda'r grŵp neu'r dosbarth beth maen nhw wedi'i wneud a'i fwynhau am yr adnodd Ble mae'r Ddafad?. Fe allen nhw beintio llun, tynnu llun neu ysgrifennu rhywbeth i'w ddangos a'i gadw i gofio am y tymor. Bydd hyn yn ddefnyddiol iawn ar ôl gwyliau hanner tymor pan fydd plant yn gallu trafod sut y gwnaethon nhw ddefnyddio Ble mae'r Ddafad? gartref.

## Arolygon

Fel rhan o'ch gwaith cynllunio Datblygiad Mathemategol gallech holi pa weithgaredd oedd fwyaf poblogaidd yn eich dosbarth. Cyflwynwch a dangoswch y canlyniadau i gefnogi rhifedd a cheisiwch eu rhoi yn rhywle y bydd rhieni/gofalwyr yn gallu eu gweld.

## Gwerthusiadau rhieni

Gallech gynllunio arolwg syml i'w ddefnyddio gyda rhieni/gofalwyr i weld pa un oedd eu hoff weithgaredd Ble mae'r Ddafad? yn y cartref. Gellid arddangos a defnyddio hyn yn y dosbarth neu ym mynedfa'r ysgol hefyd. Gallech ddefnyddio'r gwerthusiad i weld beth roedd y teuluoedd yn mwynhau ei wneud, a bod yn rhan ohono, yn ogystal â sut y bu i'r plant elwa o'r profiad.

## Cyfathrebu

Crynhowch a dathlwch bopeth a gyflawnwyd gan Ble mae'r Ddafad? a Pori Drwy Stori. Gallech ysgrifennu erthygl nodwedd i'ch cylchlythyr, gwefan yr ysgol neu anfon adroddiad at y rhieni. Gallai ychydig o drydariadau wneud gwahaniaeth o ran sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gwybod am yr adnoddau a sut i'w defnyddio'n effeithiol. Treuliwch amser yn sôn am yr holl waith caled a wnaeth y plant a'r teuluoedd i sicrhau llwyddiant Pori Drwy Stori yn eich ysgol!

**Rhowch wybod i ni!** Rydym yn hoffi clywed am eich profiadau gyda Pori Drwy Stori. Os hoffech rannu'r hyn rydych chi wedi bod yn ei wneud gyda Ble mae'r Ddafad? neu roi adborth arall am y rhaglen, cysylltwch â **poridrwystori@booktrust.org.uk**

# Poeth neu oer

Defnyddiwch eirfa sy'n ymwneud â thymheredd i leoli cardiau cudd yn y dosbarth.

## Cyfarwyddiadau

Mewn parau neu grwpiau bach, gofynnwch i'r plant guddio'r cardiau Ble mae'r Ddafad?

Ar ôl cuddio'r cardiau, dewiswch un plentyn i chwilio am y cardiau. Gallech rannu'n grwpiau mwy er mwyn i fwy nag un plentyn chwilio ar yr un pryd – ond gwnewch yn siŵr na welson nhw ble roedd y cardiau wedi'u cuddio!

Bydd y plant yn ceisio dod o hyd i'r cardiau drwy wrando ar gyfarwyddiadau'r plant eraill. Dylid dweud 'poeth' pan fyddan nhw'n agos at y cerdyn ac 'oer' pan fyddan nhw'n bell o'r cerdyn.

Gellid ymestyn geirfa'r plant drwy ddefnyddio geiriau fel 'cynhesach / poethach, oerach, chwilboeth, rhewi, fferru, berwi' ac ati.

## Adnoddau angenrheidiol:


- Cardiau Ble mae'r Ddafad?

## Dolenni FfLlRh

**Mae dysgwyr yn gallu:**

- Defnyddio cymariaethau uniongyrchol wrth ddisgrifio tymheredd.





# Pori Drwy Stori

Annwyl riant/gofalwr,

Rhowch eich testun yma



Pori Drwy Stori yw'r rhaglen genedlaethol ar gyfer plant o oedran derbyn yng Nghymru a ddarperir gan Booktrust Cymru, gyda chyllid Llywodraeth Cymru, i gynorthwyo i gefnogi llythrennedd a rhifedd yn yr ystafell ddosbarth ac yn y cartref.

**www.poridrwystori.org.uk**

